



Bywyd yng Nghonwy Wledig

Partneriaeth Pobl Conwy ar ran Bwrdd Creu
Cymunedau Cryf a Threchu Tlodi

Mai 2016

www.conwy.gov.uk

Cysylltu â ni

Os hoffech gael gwybodaeth bellach ynghylch yr adroddiad hwn gallwch gysylltu â ni yn:

Partneriaeth Pobl Conwy
Adeiladau'r Llywodraeth
Ffordd Dinerth
Bae Colwyn
LL28 4UL
E-bost: cpp@conwy.gov.uk

Ffôn: 01492 574077

Ymchwil Bywyd yng Nghonwy Wledig – Mai 2016

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
Prif Ganfyddiadau	2
Cyflwyniad	3
Dull Ymchwilio	3
Map Ymgynghori Ansoddol	4
Ymchwil Top Desg	5
Dehongliad o Dlodi ac Amddifadedd	5
Tlodi Gwledig mewn cymhariaeth â Thlodi Trefol	5
Themâu Ymchwil	6
Cyngor, Gwybodaeth, Cefnogaeth a Digwyddiadau Lleol.	6
Ymdeimlad Cymdeithasol	8
Adeiladau Cymdeithasol	8
Ymgynghori a themlo nad oes neb yn gwranddo	9
Cyflogaeth a Chyfleoedd i Bobl Ifanc	10
Iechyd	11
Tai	11
T.G, y Rhyngrwyd a Ffôn Symudol	12
Canolfan Gwaith	14
Balchder / Gofyn am help	15
Cludiant Cyhoeddus	16
Cadw'r Lefel bresennol o Wasanaethau	16
Ymdeol yng Nghonwy Wledig	18
Diogel	18
Siopa	20
Twristiaeth	21
Gwirfoddoli	21
Casgliad	22
Y Ffordd Ymlaen	24
Atodiad 1 – Taflen wybodaeth	27
Atodiad 2 Trywyddau cyfweliad i ymchwiliwr	29
Cyfeiriadau	xxxi

Crynodeb Gweithredol

Mae tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod tlodi gwledig ac amddifadedd yn broblem ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Comisiynodd Bwrdd Creu Cymunedau Cryf a Threchu Tlodi y Cyngor ymchwil yn edrych ar fywyd yng Nghonwy wledig. Roedd y gwaith hwn yn edrych yn arbennig ar y bobl hynny sydd mewn trafferthion ariannol, yn ogystal â rhai nad ydynt yn defnyddio neu sy'n cael anhawster yn cael gwasanaethau yn y sir.

Cytunwyd bod angen ymchwil sylfaenol i ganfod y problemau sy'n wynebu pobl yng Nghonwy wledig. Cynhwysodd yr ymchwil sylfaenol weithdai, cyfweiliadau a thrafodaeth grŵp gydag aelodau o'r cyhoedd.

Prif Ganfyddiadau

- Canfu'r ymchwil bod cymunedau cryf yng Nghonwy wledig. Roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn hapus yn byw yn eu cymdogaeth, ac yn mwynhau'r ymdeimlad cryf o gymdeithas a'r ffordd wledig o fyw.
- Dywedodd llawer eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth ac na fyddent yn hoffi byw yn unlle arall.
- Mae pentrefi gweledig Conwy yn fyw yn gymdeithasol, i'r rhai hynny sy'n dymuno cymryd rhan.
- Mynegodd ardaloedd gwledig bryder ynghylch dyfodol eu pentrefi; maent yn awyddus i weld y genhedlaeth nesaf o wirfoddolwyr yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu cymdogaeth.
- Mynegodd ardaloedd gwledig bryder ynghylch pobl ifanc yn gadael oherwydd diffyg gwaith, tai fforddiadwy a chyfleusterau fel siop yn cau. Pwysleisiodd ardaloedd gwledig y pwysigrwydd o gael ysgol bentref er mwyn cadw a denu teuluoedd i'r wlad.
- Mae gan ardaloedd gwledig eisiau cadw eu gwasanaethau presennol, i sicrhau eu bod yn aros yn gryf a chynaliadwy.
- Y rhai sy'n defnyddio'r Ganolfan Waith eisiau gweld canolfan yng Nghonwy wledig, a gwelliant yng nghysondeb ac agwedd staff tuag atynt.
- Dywedodd llawer o breswylwyr gwledig eu bod yn ansicr ynghylch ble i gael cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth gyffredinol. Maent yn edrych ar bapurau bro a'r wasg leol i ganfod am ddiwyddiadau yn eu hardal. Mae'r rhai sydd gyda'r rhyngwyd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ganfod am ddiwyddiadau yn eu hardal. Mae hysbysfyrddau a sgwrsio ag eraill hefyd yn ffyrdd poblogaidd o gael cyngor, gwybodaeth a chlywed am ddiwyddiadau.
- Dywedodd preswylwyr gwledig eu bod yn disgwyl adborth ynghylch yr ymgynghoriadau maent yn cymryd rhan ynddynt. Teimlai rhai preswylwyr gwledig nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a chynghorau tref/cymunedol yn gwrandao arnynt.

- Mynegodd rhai preswylwyr gwledig sy'n anghyfarwydd â chyfrifiaduron bryder eu bod wedi'u gwahardd oherwydd nad ydynt yn gallu defnyddio cyfrifiadur i lenwi ffurflenni, cael hyd i wybodaeth, a siopa a bancio. Dywedodd rhai hefyd eu bod yn teimlo wedi'u gwahardd yn gymdeithasol oherwydd nad ydynt yn gallu defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mynegodd y rhai oedd yn byw mewn lle ble nad oes cysylltiad neu nad oedd ganddynt y rhyngwrwyd gartref yr un pryderon.
- Ceir preswylwyr yng Nghonwy wledig nad ydynt yn dymuno dysgu am gyfrifiaduron a'r rhyngwrwyd. Maent yn disgwyl cael cyngor a gwybodaeth yn bersonol neu dros y ffôn.
- Mae signal data ffôn symudol yn wael yn rhai ardaloedd gwledig. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar breswylwyr ac nid ydynt yn gallu defnyddio cyfryngau cymdeithasol, neu gael cyngor, gwybodaeth neu wasanaethau ar eu ffôn symudol. Mae esiamplau a ddarparwyd yn cynnwys chwilio am waith, gwneud gwaith cartref, cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau'r cyngor.
- Mae cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n dibynnu ar y gwasanaeth. Dangosodd yr ymchwil nad oedd gan rai defnyddwyr gwasanaeth deulu neu ffrindiau i ofyn iddynt, neu nad ydynt yn hoffi eu poeni. Roedd gan ardaloedd gwledig eisiau bysus sy'n fwy aml, amserlenni'n cael ei gadw'n gyfredol a bysus yn rhedeg ar amser.

Mae'r ystyriaethau a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn anelu at drin rhai o'r materion a godwyd yn sgil yr ymgynghoriad, er mwyn eu galluogi i aros yn gymdogaethau cryf a gwydn.

Cyflwyniad

Mae tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod tloedi gwledig ac amddifadedd yn broblem ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Comisiynodd Bwrdd Creu Cymunedau Cryf a Threchgu Tloedi y Cyngor ymchwil yn edrych ar fywyd yng Nghonwy wledig. Roedd y gwaith hwn yn edrych yn arbennig ar y bobl hynny sydd mewn trafferthion ariannol, yn ogystal â rhai nad ydynt yn defnyddio neu sy'n cael anhawster yn cael gwasanaethau yn y sir.

Cytunwyd bod angen ymchwil sylfaenol i ganfod y problemau sy'n wynebu pobl yng Nghonwy wledig.

Dull Ymchwilio

Roedd pedair rhan i'r ymchwil.


1. Ymchwil top desg: Nodi a dadansoddi ymchwil perthnasol ynghylch tloedi gwledig a bywyd mewn ardaloedd gwledig.
2. Ymgynghori gyda chynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n cynrychioli wardiau gwledig. Cynhaliwyd gweithdai yn Hydref 2015. Ymgynghorwyd â chynghorwyr trwy e-bost.
3. Ymgynghoriad gyda phobl broffesiynol: Y swyddog ymchwil a datblygu wedi cyfarfod pobl broffesiynol o Gyngor Conwy, partneriaid a sefydliadau eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl agored i niwed yng Nghonwy wledig.
4. Ymchwil ansoddol gyda thriolion Conwy wledig. Roedd y rhan hon yn edrych ar brofiadau pobl sy'n byw yng Nghonwy wledig. Roedd hyn yn cynnwys

cyfweliadau un i un rhannol strwythuredig i wrando ar eu profiadau, trafodaeth dros y ffôn, trafodaeth grŵp gyda grwpiau cymunedol sy'n bodoli, ac yn olaf gweithdai anffurfiol gyda phobl ifanc a grwpiau cymunedol mwy.

Yn y rhan ansoddol cyfwelwyd 20 o bobl ynghylch eu profiad o fyw yng Nghonwy wledig, 7 trafodaeth grŵp gyda grwpiau cymunedol sy'n bodoli a 7 gweithdy anffurfiol. Holwyd cymysgedd o bobl gan gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn, teuluoedd, rhai'n chwilio am waith a rhai gyda phroblemau iechyd.

Map Ymgynghori Ansoddol

Bu ymgynghoriadau ansoddol mewn tref wledig, a'r pentrefi a phentrefan canlynol:



Ymchwil Top Desg

Dehongliad o Dlodi ac Amddifadedd

Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn dehongli tlodi fel:

*“Pan nad yw adnodau unigolyn (eu hadnoddau materol yn bennaf) yn ddigon i gyfarfod eu hisafswm anghenion (gan gynnwys cyfranogiad cymdeithasol)”
(Joseph Rowntree Foundation, 2012)*

Mae hyn yn cynnwys yr angen i fod yn rhan o gymdeithas, trwy allu cymryd rhan mewn arferion a gweithgareddau cyffredin, er enghraifft prynu anrheg pen blwydd i'ch partner neu anfon eich plentyn ar daith ysgol.

Mae'r Swyddfa dros Ystadegau Cenedlaethol yn disgrifio tlodi plant fel:

“... pwnc goddrychol sy'n anodd ei ddehongli. Mae'n gymharol; nid yw ynghylch incwm ac adnoddau'n unig, ond mae hefyd ynghylch ansawdd bywyd da gan gynnwys iechyd, addysg, tai a lles.”

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer rhannau bach o Gymru.

Mae'n diffinio amddifadedd fel:

“Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gallem eu disgwyl yn ein cymdeithas. Mae'r parthau a restrwyd uchod yn ymwneud ag agweddau materol a chymdeithasol amddifadedd. Amddifadedd materol yw bod heb ddigon o adnoddau corfforol – bwyd, lloches a dillad – sy'n angenrheidiol i gynnal rhyw safon o fyw. Mae amddifadedd cymdeithasol yn cyfeirio at allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol normal yr ardal.”

Tlodi Gwledig mewn cymhariaeth â Thlodi Trefol

Mae tlodi gwledig yn llai amlwg na thlodi trefol oherwydd nad yw tlodi wedi'i ganolbwyntio mewn un man yn ddaearyddol mewn ardaloedd gwledig. Mae cartrefi cyfoethog yn aml yn byw ochr yn ochr â chartrefi mewn tlodi ac mae clystyrau llai amlwg o'r gwahanol grwpiau economaidd - cymdeithasol. Mae hyn oherwydd cymysgedd o dai, cyflogaeth fwy amrywiol a llai unffurf a ffactorau eraill sy'n effeithio ar les materol ac economaidd. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i adnabod cartrefi sydd mewn tlodi nag mewn ardaloedd trefol. Gall tlodi deimlo'n fwy dwys mewn ardaloedd gwledig oherwydd diffyg gwasanaethau a chefnogaeth. Mewn ardaloedd gwledig mae mwy o esiamplau o systemau anffurfiol o gefnogaeth, fel dibynnu ar y teulu, ffrindiau, cymdogion a thrigolion. Mae'r dulliau anffurfiol hyn o gefnogaeth yn cael eu defnyddio'n aml yn lle gwasanaethau cefnogi a gynigiwyd gan gynghorau a sefydliadau eraill. (*Rural Wales in the twenty first century*, Milbourne, 2011).

Gwnaeth y Joseph Rowntree Foundation ymchwil ar dlodi yn Lloegr Wledig. Maent yn amcanu y bydd ar bobl mewn ardaloedd gwledig yn nodweddiadol angen gwario 10-20% yn fwy ar anghenion pob dydd na phobl mewn ardaloedd trefol. Mae'r gost yn cynyddu eto ar gyfer ardaloedd gwledig sy'n fwy ynysig. (Joseph Rowntree Foundation, 2010)

Themâu Ymchwil

Siaradodd y mwyafrif llethol o'r rhai a ymgynghorwyd â hwy yn gadarnhaol am fywyd yn eu cymdogaeth. Pan ofynnwyd beth oeddent yn ei hoffi am fyw yn eu hardal dywedodd llawer y 'bobl' a'r 'ymdeimlad cymdeithasol'. Honnodd llawer eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal, a'u bod yn mwynhau'r ffordd wledig o fyw.

Dangosodd yr ymchwil nad oedd gan y mwyafrif o'r rhai oedd yn byw mewn pentrefi gwledig ddisgwyliadau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, nid oeddent yn disgwyl yr un lefel o wasanaethau â threfi cyfagos ac ardaloedd arfordirol. Fodd bynnag, roedd y rhai oedd yn byw mewn pentrefi gwledig yn cydnabod eu bod yn talu'r un dreth y cyngor ag ardaloedd arfordirol, felly roeddent yn disgwyl rhyw gefnogaeth/cludiant cyhoeddus cymorthedig gan y Cyngor sy'n cyfarfod gwir angen eu cymdeithas. Maent yn disgwyl i'w biniau gael eu gwagu'n rheolaidd a chynnal ffyrdd a pharciau.

Dangosodd trafodaeth grŵp a chyfweiliadau gyda phobl o dref farchnad Llanrwst bod preswylwyr yn disgwyl cael lefel debyg o wasanaethau â threfi arfordirol y sir.

Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn cydnabod bod rhwystrau i fyw yng Nghonwy sydd wedi'u nodi isod.

Cyngor, Gwybodaeth, Cefnogaeth a Digwyddiadau Lleol.

Dangosodd yr ymchwil bod esiamplau o bobl yng Nghonwy wledig nad ydynt yn gwybod ble i gael cyngor a gwybodaeth. Dywedodd rhai sydd eisoes yn cael gwasanaethau fel Teuluoedd Gwledig yn Gyntaf, Golygfa Gwydyr, Ti a Fi a Gwasanaeth Ieuencid Conwy y byddant yn troi at staff y gwasanaethau hyn yn gyntaf. Dywedodd rhai sy'n gallu defnyddio'r rhyngwrwyd y byddant yn edrych ar lein am gyngor a gwybodaeth.

Roedd pryderon mewn ardaloedd gwledig ynghylch pobl hŷn yn gallu cael gwasanaethau cefnogi, fel gwasanaethau cymdeithasol. Roedd pryderon hefyd bod achosion o bobl hŷn sy'n teimlo'n ynysig gan eu bod yn llai abl i adael eu cartrefi.

Ar draws y rhan fwyaf o grwpiau oed roedd y mwyafrif a ymgynghorwyd â hwy'n dweud eu bod yn dibynnu ar y wasg leol (*Daily Post*, papurau bro a *The Weekly News*) i gael gwybodaeth a chanfod am ddigwyddiadau lleol. Roedd sgwrsio, taflenni a hysbysfyrddau'n ffynonellau poblogaidd.

Astudiaeth Achos 1

Dyfyniad gan ferch rhywun hŷn gyda phroblemau iechyd:

“I fod yn onest, dyma faes na wyddom ni ddim amdano. O achos na fuom erioed yn deulu i fynd allan i chwilio am help. Rydym yn dygymod, dyna beth ydym yn ei wneud, dygymod. ‘De ni ddim wedi arfer efo budd-daliadau, ‘de ni ddim wedi arfer efo cardod neu ddim fel yna. Dydyn ni ddim yn gwybod sut i gael y fath bethau. Fe wn fod pethau ar gael trwy gyfrifiaduron a phethau, wyddoch chi. Ni all mam yn bendant ddim gwneud pethau fel yna, nid yw’n hoffi’r ffôn, mae’n gas ganddi’r ffôn. Cyn iddi fynd yn sâl roedd yn cael yr holl bapurau lleol Y Gadlas, Daily Post a’r Weekly News”.

Y Ganolfan Deuluoedd a Golygfa Gwydyr

Dangosodd trafodaeth grŵp a chyfweliadau gyda rhai sy’n defnyddio’r gwasanaeth yn Llanrwst fod y Ganolfan Deuluoedd a Golygfa Gwydyr yn wasanaethau poblogaidd. Cafwyd sylwadau cadarnhaol ynghylch y staff a’r gwirfoddolwyr cyfeillgar, a’r polisi drws agored yn y ddwy ganolfan. Roedd mwyafrif defnyddwyr y gwasanaeth oedd yn defnyddio’r ddwy ganolfan o Lanrwst ei hun, fodd bynnag roedd esiamplau o bobl a oedd yn teithio o bentrefi i’r dref.

Dangosodd trafodaeth grŵp gyda grwpiau mamau a babi mewn pentrefi gwledig bod Mamau yn dychrynu mynd i Ganolfan Deuluoedd Llanrwst oherwydd nad oeddent yn adnabod mamau eraill yn y ganolfan. Dywedodd eraill eu bod yn teimlo eu bod yn rhy brysur, neu nad oeddent yn rhy siŵr pa wasanaethau oedd yn cael eu cynnig yn y ganolfan. Datgelodd trafodaeth grŵp yng Ngolygfa Gwydyr bod un ohonynt wedi teimlo’n gymdeithasol ynysig cyn dod i’r ganolfan. Bu’r ganolfan yn help iddo.

Astudiaeth Achos 2

Dyfyniad gan fam sy’n defnyddio’r Ganolfan Deuluoedd a Golygfa Gwydyr yn Llanrwst:

“Rwy’n dod yma er mwyn y plant ac yna darganfod am bethau eraill sy’n mynd ymlaen. Rwyf nawr wedi dod i’r fan ble rwy’n ddigon hyderus i ddod i mewn gyda phroblemau a dweud ‘mae gen i’r broblem hon, allwch chi helpu?’ Fyddwn i ddim wedi gwneud hynny o’r blaen, mae arnoch angen hynny, dod yma er mwyn y plant, a mynd trwy’r drws ac yna dod i adnabod pawb sydd yma a bod yn gyfforddus yma... rwy’n un o’r rhai hynny sy’n ei chael yn anodd mynd i le newydd am y tro cyntaf. Hefyd, os bydd grwpiau mawr rwy’n rhy swil, gwn ei fod yn reit hunanol, ond mae’n reit neis i mi os oes grwpiau bach. Gwn o siarad efo pobl eraill, eu bod yn teimlo’r un fath. Os yw’n grŵp mawr ac rydych yn dysgu rhywbeth, mae’n eithaf bygythiol ond mae dull mwy anffurfiol yn neis.

Astudiaeth Achos 3

Dyfyniad gan fam sy'n defnyddio'r Ganolfan Deuluoedd yn Llanrwst:

"Byddwn yn hollol ar goll heb y lle. Rwy'n meddwl yn arbennig ers i fy merch fynd trwy ddiagnosis ac ar ôl cael diagnosis o fod yn awtistig. Cafodd ei symud o ysgol i ysgol a 'dyw hi ond 5 oed ac mae'n ei thrydedd ysgol. Y panic – Roeddwn yn gwir boeni am fod yn fam a darganfod fod ganddi anghenion ychwanegol hefyd. Y tro cyntaf y gwnaethom gyfarfod roeddwn i'n llanast dagreuol. Fe fyddwn i'n hollol ar goll hebddynt. Byddwn, mi fyddwn i."

Astudiaeth Achos 4

Dyfyniad gan fam sy'n defnyddio'r Ganolfan Deuluoedd yn Llanrwst :

"Rwy'n hoffi sicrwydd rhywun arall yn dweud. Dyna beth rwy'n ei gollu am fy ngŵr. Byddai'n dweud rwy'n cytuno efo ti. Mae gwneud penderfyniad ar ben eich hun yn bur anodd. Mae'n dda clywed gan rai o'r mamau eraill gan nad y fi yn unig sy'n mynd trwyddo. Fel y darn patrwm cysgu. Mae pob plentyn yn mynd i'w wely ar wahanol amseroedd. Nid wyf ar ben fy hun. Rwy'n hapus gyda beth sydd gennym yma o achos nad oes gan rai lleoedd ddim byd yn nac oes?"

Ymdeimlad Cymdeithasol

Heb law'r rhai oedd yn byw ar stad Glanrafon, Llanrwst, roedd pobl yn siarad yn gadarnhaol am yr ymdeimlad cymdeithasol yn eu hardal. Datganiad cyffredin oedd bod pobl yn edrych ar ôl ei gilydd, a'u bod yn byw mewn cymdeithas glos.

Dangosodd yr ymchwil bod pentrefi gwledig sy'n gymdeithasol actif gydag amrywiol gymdeithasau'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr lleol. Mae'r grwpiau hyn yn amrywio o Ffermwyr Ifanc, bore goffi, gwersi Cymraeg a gwersi cyfrifiadur.

Astudiaeth Achos 5

Dyfyniad gan breswlydd o Fetws yn Rhos:

"Fyddwn i ddim yn byw yn unman arall. Mae'n sicr yn gartref i ni gyd ac rydym yn bendant yn hapus iawn yn byw yma. Mae pobl yn edrych ar ôl ei gilydd ac rydych yn teimlo eich bod yn rhan o'r gymdeithas, sy'n cynhesu fy nghalon."

Adeiladau Cymdeithasol

Mae adeiladau cymdeithasol yn ymddangos i gael defnydd da yng Nghonwy wledig, o dafarnau gwledig yn cael eu defnyddio fel 'canolfannau' cymdeithasol, hyd neuaddau pentref, ac ysgolion. Dangosodd yr ymchwil bod grwpiau cymdeithasol ac unigolion yn pryderu bod angen cynnal yr adeiladau hyn er mwyn sicrhau bod trigolion yn parhau i allu eu defnyddio.

Ymgynghori a themlo nad oes neb yn gwrando

Fe wnaeth trafodaeth grŵp a gweithdai ar fywyd yng Nghonwy wledig ganfod nad oedd y rhai a gymerodd ran yn cael adborth yn aml ynghylch ymgynghoriadau. Er eu bod yn barod i gymryd rhan mewn ymgynghoriad fe hoffent gael gwybod beth oedd canlyniad yr ymgynghoriad.

Fe wnaeth cyfweiliadau a thrafodaeth grŵp ddarganfod bod unigolion o draws Conwy wledig sy'n teimlo nad yw'r cyngor yn gwrando arnynt. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys casglu sbwriel, stad Glanrafon, Llanrwst a phryderon ynghylch diogelwch ffordd.

Dangosodd yr ymchwil yn Llanrwst yn arbennig bod rhai preswylwyr yn flin gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r Cyngor Tref oherwydd nad oeddent yn teimlo eu bod yn gwrando arnynt. Yr esiempl a roddwyd oedd bod preswylwyr yn teimlo y gellid bod wedi gwario'r arian a wariwyd ar goed yn y dref yn well ar y gymuned.

Dangosodd yr ymchwil bod peth dryswch ynghylch cyfrifoldebau a phenderfyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a gwaith cynghorau tref/cymuned.

Er yr ymgynghorwyd â phobl ifanc, teimlent nad oeddent yn cael adborth ar benderfyniadau, felly mae rhai yn teimlo nad oes neb yn gwrando arnynt, ac nad yw eu barn yn bwysig.

Astudiaeth Achos 6

Dyfyniad gan breswlydd o Gerrigydrudion:

“Yr unig beth fyddwn i yn ei ddweud am fyw yma yw'r gyrru o'r pentref i lawr at yr A5, ar hyd King Street, mae'n gywilyddus. Rydym wedi cwyno wrth y cynghorwyr lleol ac wrth yr heddlu. Does neb yn cymryd unrhyw sylw ohonoch.”

Astudiaeth Achos 7

Dyfyniad gan breswlydd o Lanrwst:

“Pan wnaethant blannu'r coed yn y dref roeddem yn meddwl y gallai'r arian fod wedi'i wario'n well ar y ganolfan gymdeithasol.”

Astudiaeth Achos 8

Dyfyniad gan breswlydd o Lanrwst :

“Rwy'n tybied bod, parthed cynllunio a phenderfyniadau am y dref, bod pethau'n digwydd ac wn i ddim, ond efallai mod i'n methu'r ymgynghoriad. Efallai nad yw hynny'n farn deg ac efallai y dylwn fynd i gyfarfodydd y cyngor tref neu ryw Beth... pethau tebyg i'r ffordd maent wedi ail ddatblygu'r sgwâr. Nid fel maent wedi'i wneud ond mae fel pe bai wedi ymddangos dros nos. Fe wn fod llawer o bethau yn y dref ble mae gwrthdaro drostynt. Mae'n ymddangos fel pe bai rhwng y rhai sy'n cynllunio a'r rhai sydd ar y

gwaelod. Efallai bod gan rai ar y gwaelod rai syniadau da, felly byddai tipyn mwy o gymysgedd yn beth da.”

Cyflogaeth a Chyfleoedd i Bobl Ifanc

Fe wnaeth gweithdai a chyfweiliadau gyda phobl ifanc ddarganfod:

- Bod pobl ifanc yn siarad yn gadarnhaol; roedd cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth rhan amser yn ystod cyfnodau twristiaeth prysur.
- Fe wnaeth adroddiad Golygfa Gwydyr ynghyd ar ymchwil yma ddarganfod bod cymunedau yn teimlo bod prinder cyfleoedd gyrfaoedd tymor hir yn yr adral.
- Roedd llawer o bobl ifanc yn teimlo nad oedd digon iddynt ei wneud yng Nghonwy wledig. Roedd yr awgrymiadau a gafwyd yn cynnwys clybiau ieuenctid yn agored yn fwy aml, caffi rhyngwrwyd/Wi-Fi a gwella parciau trwy gael golau yn ystod misoedd y gaeaf.
- Teimlwyd bod angen gwell cludiant cyhoeddus rhwng pentrefi gwledig i bobl sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig.
- Dywedodd pobl ifanc o ardaloedd gwledig eu bod yn disgwyl teithio i'r gwaith oherwydd eu bod yn byw mewn ardal wledig.
- Dywedodd llawer nad oeddent yn teimlo eu bod ymhell o dref.
- Teimlwyd bod angen mwy o weithgareddau am ddim/fforddiadwy i bobl ifanc yn Llanrwst er mwyn eu cadw oddi ar y strydoedd ac o'r meysydd parcio.
- Roedd gan bobl ifanc eisiau gweld mwy o gyrsiau'n cael eu cynnig trwy gyfuniad o skype a dysgu yn y dosbarth.
- Hoffai pobl ifanc fwy o fannau aml wi-fi yng Nghonwy wledig – awgrymwyd caffi rhyngwrwyd.
- Dywedodd ymgynghoriad gyda thrigolion Golygfa Gwydyr nad yw pobl ifanc yn cael eu hannog i ymuno â bywyd lleol.

Astudiaeth Achos 9

Dyfyniad gan fam sengl gyda gradd ond yn ei chael yn anodd cael gwaith sy'n ffitio gyda chasglu plant o'r ysgol:

“Dyna'r unig dro i mi feddwl erioed y byddai'n rhaid i mi adael Llanrwst efallai. Gallaf ddygymod gyda phob peth arall. Dyna'r unig beth rwy'n meddwl a fyddai efallai yn fy ngorfodi i adael a byddwn yn drist iawn oherwydd mae'r genethod yn hoffi'r ysgol ac maent wedi setlo. Does gen i ddim eisiau symud... rydym wedi symud pedair gwaith, ers iddynt gael eu geni, a does gen i ddim eisiau symud eto. Mae wedi cymryd amser maith i

*mi lunio cysylltiadau yma ac rwyf braidd yn araf gyda phethau fel yna.
Fyddai gen i ddim eisiau symud eto am beth amser."*

Iechyd

Cafwyd sylwadau cadarnhaol ynghylch meddygfeydd mewn ardaloedd gwledig.

Dangosodd un drafodaeth ffôn bryderon ynghylch amser disgwyl am ambiwlans, tra cododd trafodaeth grŵp yn Nolgarrog bryderon ynghylch amser disgwyl am apwyntiad yn Ysbyty Glan Clwyd.

Tai

Y materion a godwyd ynghylch tai yng Nghonwy wledig:

- Tai fforddiadwy: mynegodd pobl Conwy wledig bryder ynghylch nad oes digon o dai fforddiadwy i bobl ifanc sy'n dymuno byw yn eu hardal. Mynegodd preswylwyr bryder bod hyn yn gorfodi pobl ifanc i symud i fyw i rywle arall. Teimlent bod hyn yn cael effaith ar ysgolion pentref, yr ymdeimlad cymdeithasol a dyfodol pentrefi gwledig. Er bod angen tai fforddiadwy, mynegwyd pryder nid oedd gan sawl pentref eisiau gweld eu pentrefi yn cael eu ehangu ar draul yr 'ymdeimlad o bentref'.
- Mynegodd preswylwyr stad Glanrafon yn Llanrwst bryder nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn byw ar y stad oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol rhai o'r preswylwyr. Honnodd preswylwyr y stad nad oedd y cyngor a'r gymdeithas dai yn gwrando arnynt.
- Mynegwyd pryder ynghylch y nifer o dai gwyliau sydd mewn ardaloedd gwledig. Teimlai preswylwyr bod hyn yn cael effaith ar ysbryd cymdeithasol, yn ogystal â chodi prisiau tai a gwrthio pobl ifanc o'r farchnad dai.
- Tra bo'r mwyafrif o bobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal, roedd un enghraifft o bentref yng Nghonwy ble roedd pobl wedi symud i'r ardal ac yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad bygythiol yn eu barn hwy. Oherwydd hyn dywedodd rhai preswylwyr eu bod yn teimlo'n llai diogel yn eu pentref.

Astudiaeth Achos 10

Dyfyniad gan ferch rhywun hŷn sy'n byw yn Llangernyw:

"Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig iawn mewn rhywle fel Llangernyw i wneud yn siŵr bod tai ar gael i bobl leol. Mae cymdogaeth dda a gofal yn dod o'r fan honno, mae'n gynhenid. Mae'n debyg y bydd y tŷ drws nesaf yn cael ei droi yn dŷ gwyliau. Allwch chi ddim mo'i beio, maent yn mynd i wneud mwy o bres ond pethau fel yna sy'n chwalu'r gymdeithas. Felly, rwy'n wir gredu, rywsut, bod angen i ni ddarparu mwy o dai i bobl ifanc lleol."

Astudiaeth Achos 11

Dyfyniad gan fam o Fetws yn Rhos:

“Nid ydynt yn gallu fforddio'r tai! Dyna'r unig beth na allai fy mhlant fforddio ei brynu yma. Nid oes tai fforddiadwy i bobl sy'n cychwyn... does yna ddim sy'n fforddiadwy yn y pentref nawr. Mae'r tai sydd wedi'u codi yn ystod y blynyddoedd diweddar yn bur ddrud. Felly dyna pam, o bosibl, mae pobl iau yn symud allan. Nid oes llawer o bobl ifanc Betws yn dod i fyw i Fetws bellach. Ond mae pobl yn dod yma i fyw a theithio i Lerpwl neu ble bynnag, does ganddynt ddim amser i ymuno â bywyd y pentref.”

Astudiaeth Achos 12

Dyfyniad gan breswlydd o Eglwysbach:

“Y broblem yw na allwch chi mewn gwirionedd ehangu'r pentref oherwydd na fyddai'r rhan fwyaf o bobl eisiau hynny oherwydd y byddai'n dinistrio'r pentref. Ond os nad oes yna'r math yna o gymysgedd o dai bydd yn cael ei ddinistrio beth bynnag mewn ffordd gymdeithasol wahanol. Does dim modd ennill dybiwn i.”

T.G, y Rhyngrwyd a Ffôn Symudol

Cafwyd y problemau canlynol gyda T.G., y rhyngrwyd a ffôn symudol:

- Defnyddio cyfrifiadur: dangosodd yr ymchwil bod 20% o'r rhai a gyfwelwyd yn disgrifio'i hunain yn anllythrennog gyda chyfrifiaduron. Roedd eu hanner yn awyddus i gael gwersi T.G. Roedd un eisoes yn cael gwers 1:1 tair awr, ond ei fod yn ormod i gymryd i mewn. Nid oedd gan yr hanner arall ddiddordeb mewn dysgu sut i ddefnyddio cyfrifiaduron.
- 'Dim signal' – Roedd un unigolyn yn byw ble nad oedd signal. Nid oedd y teulu'n gallu cael signal rhyngrwyd band llydan na ffôn symudol. Fe wnaethant ddweud eu bod yn rhwystredig gan na allent ddefnyddio bancio rhyngrwyd a gwefannau fel GIC Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Fe wnaethant ddweud bod methu cael cysylltiad rhyngrwyd a ffôn symudol yn cael effaith negyddol ar eu bywyd dyddiol, gan eu bod yn teimlo nad oeddent wedi'u cysylltu â'u ffrindiau, teulu a'r gymdeithas.
- Signal data ffôn symudol gwael: Datgelodd trafodaeth grŵp bod y signal yn ardal Llanrwst, a rhai pentrefi cyfagos yn wael. Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar rai na allai fforddio'r band llydan.
- Cael cyngor, gwybodaeth a gwasanaethau: Teimlwyd bod y rhai nad oedd yn gallu defnyddio neu heb y rhyngrwyd dan anfantais gan eu bod yn colli allan ar yr wybodaeth, y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd yn cynnwys chwilio am waith, gwneud gwaith cartref, cyfryngau cymdeithasol a thudalen Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

- Dywedodd rhai pobl ifanc bod ysgolion yn disgwyl iddynt fod gyda'r rhyngwyd er mwyn gwneud gwaith cartref.
- Dywedodd pobl ifanc nad oedd ganddynt y band llydan gartref, eu bod yn rhy bell o'r llyfrgell neu nad oeddent yn gallu treulio digon o amser yn y llyfrgell ar benwythnos oherwydd yr oriau agor, a llawer o bobl eraill yn defnyddio cyfrifiaduron.

Astudiaeth Achos 13

Dyfyniad gan fam sy'n byw mewn lle ble nad oes signal:

"Mae cymaint o bethau sy'n cael eu gwneud trwy'r rhyngwyd nawr. Felly mae'n rhaid i ni fynd i'r dref i wneud hynny, mynd i McDonald's neu fwytai.... Mae'r rhyngwyd yn bwysig mewn gwirionedd..."

Astudiaeth Achos 14

Dyfyniad gan ffermwr yn ei 70au sy'n methu defnyddio'r rhyngwyd, mae wedi cael gwers tair awr 1:1, ond dywedodd na allai gymryd yr holl wybodaeth i mewn. Dywedodd yr hoffai gael gwersi oherwydd ei fod yn teimlo ei fod yn angenrheidiol:

"O ma'n gas gen i nhw, rwy'n flin efo pob dim. Ma hi wedi dod i'r pen arna' i. Bu'n rhaid i mi gofrestru lloï y bore 'ma a bu'n rhaid ffonio'r undeb i'w wneud o i mi fel ryw hen fabi"

Astudiaeth Achos 15

Dyfyniad gan rywun yn ei 50au:

"Byddai'n braf cael gwersi cyfrifiadur, ond maent yn ddrud"

Astudiaeth Achos 16

Dyfyniad gan rywun hŷn:

"Does gen i ddim amynedd efo fo"

Astudiaeth Achos 17

Dyfyniad gan ferch rhywun hŷn:

"Na, dim cyfrifiaduron. Wnaiff hi ddim defnyddio'r ffôn os nad oes rhaid iddi.... Rwy'n meddwl bod technoleg fodern yn dda iawn ond dydy o ddim yn dda i'r henoed. ... Mae pawb yn disgwyl i chi fod ar lein. Mae'n rhaid i chi allu gwneud y math yna o beth i gael pethau. ... 'Gallwch i wneud y peth yma ar lein a'r peth arall ar lein' ydy'r cwbl ond os na allwch chi, allwch chi ddim, rydych yn colli allan mewn gwirionedd. Sut ydym yn dweud pethau os nad yw pobl ar lein?"

Canolfan Gwaith

Dangosodd ymchwil bod y drefn gofrestru bresennol i gael Credyd Cynhwysol yn penderfynu ar ba ddiwrnod mae pobl yn gallu 'cofrestru'. Er enghraifft, os bydd rhywun yn cofrestru ar ddydd Mercher eu diwrnod 'cofrestru' fydd dydd Mercher o hynny ymlaen. Felly ni fyddai'n ymarferol i drefnu cludiant i Landudno i gofrestru i grwpiau sy'n ceisio gwaith. Mae diwrnod cofrestru'r rhai sy'n parhau ar Lwfans Ceisio Gwaith yn cael ei benderfynu gan eu rhif yswiriant cenedlaethol. Fel arfer mae'n rhaid i rai sy'n chwilio am waith sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith gofrestru unwaith bob pythefnos. Mae anghenion cofrestru'n amrywio yn ôl amgylchiadau personol y rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol.

Cododd trafodaeth grŵp a chyfweliadau gyda phobl sydd â phrofiad o ddefnyddio'r gwasanaeth y problemau canlynol:

- **Teithio:** teimlai pobl yn gryf y dylai fod gan y Ganolfan Gwaith ganolfan yng Nghonwy wledig. Dywedwyd ei bod yn daith gron o 4 awr o Lanrwst i'r Ganolfan Waith yn Llandudno os defnyddir cludiant cyhoeddus. Byddai'r daith yn hirach o ardaloedd gwledig mwy ynysig. Roedd hyn yn arbennig anodd i rai sydd eisiau nôl plant o'r ysgol. Pwysleisiodd unigolion bwysigrwydd bod y bysiau ar amser mewn ardaloedd gwledig. Rhoddodd un defnyddiwr gwasanaeth esiampl o pan gafodd gosb gan y Ganolfan Gwaith am fod 40 munud yn hwyr, roedd hyn am fod y bus yn hwyr. Cost y daith bresennol yw £5.50 am docyn diwrnod gyda bysiau Arriva Wales. Gall y gost newid o 3 Mai 2016 pan fydd Llew Jones yn cymryd drosodd gwasanaeth bus rhif 19.
- **Staff:** Mynegwyd pryder ynghylch y modd roedd staff yn trin defnyddwyr y gwasanaeth yng Nghanolfannau Gwaith Llandudno a Bae Colwyn. Nid oedd un unigolyn ifanc yn gallu defnyddio'r gwasanaeth oherwydd bod y driniaeth a gafodd yn achosi pwl o banig, fel nad yw bellach yn gallu cerdded trwy ddrws y ganolfan, dewisodd rhywun ifanc arall beidio defnyddio'r gwasanaeth oherwydd agwedd y staff.
- **Cysondeb:** Mynegwyd pryder ynghylch cysondeb yr wybodaeth a'r gwasanaethau a gynigir. Rhoddwyd esiamplau o pan na ddywedwyd wrth ddefnyddwyr y gallent hawlio costau teithio os gofynnwyd iddynt fynychu'r Ganolfan Waith ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol. Dangosodd ymchwil top desg ei bod yn bosibl cofrestru trwy'r post (Lwfans Ceisio Gwaith yn unig) a thros y ffôn (Credyd Cynhwysol a Lwfans Ceisio Gwaith). Mae pwy sydd â hawl yn cael ei benderfynu gan staff y Ganolfan Waith sy'n cynnal y cyfweliadau dechreuol gyda defnyddwyr gwasanaeth, ac nid yw defnyddio'r post/ffôn yn cael ei gynnig yn gyson i gwsmeriaid gwledig.
- **Gwirfoddoli:** Mynegodd rhai unigolion bryder y gallai gwirfoddoli i helpu yn y gymdogaeth arwain at gosb gan y Ganolfan Waith.

Dygodd defnyddwyr Clybiau Gwaith yn Llanrwst sylw at bwysigrwydd y Clybiau Gwaith wrth iddynt chwilio am waith, a'u helpu gyda phob agwedd arall o chwilio am waith fel llunio CV a chyngor gyda chyfweliadau. Dygodd y grŵp sylw at yr angen am fwy o gyfrifiaduron mewn clybiau gwaith yn ystod yr amseroedd prysur.

Astudiaeth Achos 18

Dyfyniad gan fam sengl o Lanrwst. Weithiau mae wedi brwydro i gyrraedd mewn pryd i gasglu'r plant o'r ysgol.

"Mae cludiant yn anodd iawn. Rwy'n gyrru ond ni allaf fforddio car ar y funud... i fynd i'r Ganolfan Waith mae'n daith pedair awr gron, i lofnodi darn o bapur... Rwy'n arwyddo'r pad a dyna'n llythrennol y cwbl rwy'n ei wneud yn y Ganolfan Waith. Does dim gwir wasanaeth yn yr ystyr yna... nid ydynt yn eich helpu gyda dim ... euthum yno un wythnos a gofynnodd 'sut mae pethau?' a dywedais 'o, mae'n ddigalon, neb wedi galw yn ôl na chyfweliadau' a dywedodd 'o diar!' A meddylies, mae gen i eisiau help gyda hynna, pam fod hyn yn digwydd, beth sydd angen i mi ei wneud yn wahanol? Does ganddynt mo'r amser i wneud hynny, sy'n iawn, ond mae arnoch angen help o rywle"

Balchder / Gofyn am help

Fe wnaeth yr ymchwil ddangos bod balchder personol ynghylch gofyn am help yn thema oedd yn ail adrodd yng Nghonwy wledig. Ceir esiamplau o bobl yng Nghonwy nad ydynt yn gofyn am help. Roedd llawer o resymau am hyn gan amrywio o beidio bod eisiau poeni pobl eraill, eisiau aros yn annibynnol a 'bodloni' fel maent wedi'i wneud erioed.

Mae'r dyfyniadau isod yn dangos y gall yr unigolion hynny nad ydynt yn gofyn am help fod yn colli budd-daliadau pwysig sydd ganddynt hawl iddynt. Gallai esiamplau gynnwys prydau ysgol, Credyd Cynhwysol, budd-daliadau yn ogystal â chefnogaeth gan wasanaethau cymdeithasol.

Astudiaeth Achos 19

Dyfyniad gan ferch rhywun hŷn:

"Tyda'n ni erioed 'di cael help. Roeddem ni'n dlawd iawn, iawn, ond doedd yna ddim help, felly doeddech chi ddim yn gofyn amdano. Roeddech yn cario ymlaen ac os oedd gennych eisiau rhywbeth roeddech yn gweithio i'w gael y ffordd yna. Rydych yn edrych ar ôl eich busnes eich hun. Mae'n fyd gwahanol nawr nad ydym wedi arfer efo fo."

Astudiaeth Achos 20

Dyfyniad gan rywun hŷn:

"I mi mae fel rhoi'r gorau iddi. Rwy'n ceisio gwneud cymaint ag y gallaf dros fy hun"

Astudiaeth Achos 21

Dyfyniad gan rywun yn ei 50au:

"Does gennych ddim eisiau poeni pobl. Mae pobl yn brysur ac mae ganddynt eu pethau eu hunain i'w gwneud."

Cludiant Cyhoeddus

Mynegodd llawer o drigolion gwledig Conwy bryder ynghylch cludiant cyhoeddus i ac o gymunedau. Roedd y prif bryderon yn cynnwys:

- Amllder bysiau
- Ymarferoldeb amser bws
- Bysiau ddim ar amser
- Yr amserlen yn hen
- Cost teithio ar fws i bobl ifanc

Fe wnaeth yr ymchwil ddarganfod efallai nad yw cludiant cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n helaeth mewn rhai ardaloedd gwledig, mae'n wasanaeth hanfodol i'r rhai hynny sydd yn defnyddio'r gwasanaeth gan nad oes ganddynt ffordd arall o deithio.

Dywedodd y rhai nad ydynt yn defnyddio cludiant cyhoeddus yn bresennol eu bod yn poeni sut fyddent yn dygymod pe bai'r amser yn dod pan na fyddent yn gallu defnyddio eu cerbydau eu hunain. Roedd gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn rhwystredig gyda phobl oherwydd nad ydynt yn defnyddio cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.

Roedd ar bobl ifanc eisiau mwy o gludiant cyhoeddus ar ddydd Sul. Fe wnaeth yr ymchwil ddangos bod y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn awyddus i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy beilota cynlluniau cludiant a oedd yn cyfarfod anghenion eu hardal. Fe wnaeth yr ymchwil ganfod hefyd bod peth myth a dryswch ynghylch cludiant cyhoeddus, pan oedd rhai preswylwyr wedi'u camarwain ynghylch llwybrau bws.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol ynghylch cludiant cyhoeddus gan breswylwyr o Llanfair T.H., Dolwyddelan, a Llanrwst.

Astudiaeth Achos 22

Dyfyniad gan breswlydd o Langernyw oedd eisiau defnyddio'r bws i Abergele:

"Does ond un bws y dydd. Os ydych yn dal y bws mae'n dod yn ôl mewn dwy awr sydd ddim yn ddigon o amser i wneud dim. Mae'r ffordd mae'n gweithio'n wirion. Dw'n methu deall gan mai pentref ydyw a'i fod yn anghysbell, fe wn ei fod i'w wneud efo'r cwmni bws hefyd. Ond rwy'n meddwl y dylai'r cyngor gyfrannu a thalu tuag at rywbeth fel bod digon o fsysys i wasanaethu'r ardal. Rwy'n meddwl ei fod yn hollol anghywir."

Cadw'r Lefel bresennol o Wasanaethau

Roedd ardaloedd gwledig yn awyddus iawn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gadw'r lefel bresennol o wasanaethau. Teimlent na allai ardaloedd gwledig fforddio toriadau pellach oherwydd yr effaith niweidiol fyddai hyn yn ei gael ar y gymdeithas gyfan.

- Dangosodd gweithdai gyda phobl ifanc sy'n mynychu clybiau ieuenctid bwysigrwydd y clybiau ieuenctid iddynt. Dywedodd llawer mai'r clwb ieuenctid yw'r unig weithgaredd y tu allan i'r ysgol maent yn cymryd rhan ynddo. Dywedodd rhai pobl ifanc bod clybiau ieuenctid yn arbennig bwysig yn ystod misoedd y gaeaf oherwydd y nosweithiau tywyll. Fe wnaethant ddweud na allant chwarae chwaraeon neu gyfarfod ffrindiau y tu allan yn ystod misoedd y gaeaf. Honnodd rhai o'r bobl ifanc oni bai am y clwb ieuenctid, mai'r unig ffordd y byddent yn gallu cymdeithasu gyda'u ffrindiau ar ôl yr ysgol fyddai trwy gyfryngau cymdeithasol, ond nid yw'r rhyngwrwyd ar gael i'r holl bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy.
- Roedd pryderon ynghylch cau toiledau cyhoeddus.
- Cludiant Cyhoeddus: Roedd ar drigolion ardaloedd gwledig eisiau gweld cludiant cyhoeddus yn cynyddu yn hytrach na gostwng mewn ardaloedd gwledig.
- Cafodd Chwaraeon Gwledig Conwy sylwadau cadarnhaol yn ystod yr ymgynghoriad, ac roedd y rhai oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn awyddus iddo barhau.
- Parciau: roedd teuluoedd yn awyddus i weld parciau'n cael eu diweddarau a'u cynnal yn well yng Nghonwy wledig.
- Ysgolion: teimlai ardaloedd gwledig bod ysgolion cynradd yng nghalon y gymdeithas, a theimlent y byddai cau ysgol gynradd yn cael effaith niweidiol ar fywyd lleol, oherwydd teimlent y byddai'n llai tebygol y byddai teuluoedd yn aros, a fyddai'n cael effaith ar ymdeimlad cymdeithasol a rhwydweithiau cefnogi.
- Sbwriel: Mynegwyd pryder ynghylch llai o wagu biniau mewn ardaloedd gwledig gyda bywyd gwyllt yn mynd i mewn i'r biniau, a'r cynnydd mewn tipio anghyfreithlon ar ochr y ffordd.
- Cyflwr y ffyrdd: Teimlai ardaloedd gwledig ei bod yn bwysig bod ffyrdd a phafinau yn cael eu cynnal a'u gwella. Roedd ardaloedd gwledig hefyd yn poeni ynghylch swm y drafndiaeth a gyrru trwy bentrefi.
- Grwpiau Cymdeithasol a Menter Gymdeithasol: Pwysleisiodd ardaloedd bwysigrwydd cadw grwpiau cymdeithasol yn eu bro. Teimlai rhai grwpiau bod ar grwpiau cymdeithasol a mentrau cymdeithasol angen mwy o gefnogaeth er mwyn sicrhau eu bod yn parhau - megis cynnal adeiladau, cefnogaeth ariannol a recriwtio gwirfoddolwyr.
- Parcio: Teimlai preswylwyr Llanrwst y dylai nifer y lleoedd parcio am ddim gael eu cynyddu er mwyn annog pobl i ymweld â'r dref. Teimlent nad oedd 2 awr o barcio am ddim yng nghanol y dref yn ddigon i bobl hŷn a'u teuluoedd. Fe wnaethant ddweud bod ar y maes parcio yn Heol Watling angen sylw.

Ymdeol yng Nghonwy Wledig

Dangosodd yr ymchwil bod Conwy wledig yn lle poblogaidd i rai sy'n dymuno ymdeol i'r wlad. Y prif reswm dros symud oedd eisiau byw yn y wlad. Dangosodd yr ymchwil bod y rhai oedd wedi symud o ardaloedd trefol i bentrefi gwledig yn hapus iawn gyda'u penderfyniad i symud. Fe wnaeth trafodaeth grŵp a chyfweiliadau ddarganfod nad oedd rhai o'r preswylwyr oedd wedi symud o ardal drefol i Gonwy wledig wedi meddwl yn llawn am agwedd ymarferol tymor hir bywyd mewn pentref gwledig. Roedd esiamplau yn cynnwys bod yn ansicr sut fyddent yn dygymod heb eu car eu hunain, lleoliad tai mewn pentref neu bentrefan, a chael gwasanaethau fel iechyd a mynd i siopa.

Diogel

Dywed adroddiad Heddlu Gogledd Cymru 'Trosedd a Gofnodwyd yng Nghonwy Wledig' bod trosedd yng Nghonwy wledig o gwmpas 8% o'r holl droseddau a gofnodwyd yng Nghonwy yn 2015. Dywedwyd nad oes fawr wahaniaeth yn y math o drosedd sy'n effeithio ar Gonwy wledig a threfol. Esbonia'r adroddiad y gall natur trosedd fod yn wahanol. Yr esiampl a roddwyd yw y gall rhywun mewn ardal drefol yng Nghonwy ddweud wrth yr heddlu bod drych eu car wedi'i ddifrodi, tra gall ffermwr yng Nghonwy fod â darn hir o ffens wedi'i ddifrodi. Gall y troseddau hyn gael eu cofnodi fel yr un math o drosedd (difrod troseddol), ond gall y troseddau hyn effeithio ar bobl a busnesau mewn gwahanol ffyrdd.

	Trosedd a gofnodwyd 2014/15				Conwy Wledig 2012
	Conwy Wledig	Conwy Drefol	CB Conwy	Cymru	
Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd	411	5,881	6,292	181,715	527
Graddfa fesul 1,000 o'r boblogaeth					
Pob trosedd 2014/15	23.18	59.95	54.32	58.95	31.2
Trais yn erbyn yr unigolyn	6.71	15.23	13.92	15.29	8.4
Dwyn a thrin	5.02	14.81	13.31	-	6.7
Difrod troseddol	3.89	13.23	11.80	9.80	4.8

(Ffynhonnell: Adroddiadau o drosedd fesul ward etholiadol, Heddlu Gogledd Cymru)

Mae'r tabl uchod yn dangos bod Bwrdeistref Sirol Conwy fel cyfanrwydd yn lle diogel i fyw ynddo a bod Conwy wledig yn fwy diogel, gyda graddfeydd is o droseddau wedi'u cofnodi ym mhob categori. Mae'r tabl hefyd yn dangos bod graddfeydd troseddau wedi gostwng yng Nghonwy wledig ers 2012.

Dangosodd ymchwil Bywyd yng Nghonwy Wledig bod y mwyafrif mawr o'r rhai a ymgynghorwyd â hwy yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal. Roedd llawer o esiamplau o breswylwyr yng Nghonwy wledig oedd yn teimlo nad oedd angen cloi eu cartrefi dros nos.

Nid oedd y rhai oedd yn bwy ar stad Glanrafon, Llanrwst yn teimlo'n ddiogel ar y stad oherwydd yr ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd yno. Fe wnaeth ymgynghoriad Golygfa Gwydyr ddarganfod bod preswylwyr Llanrwst yn teimlo wedi'u dychryn yn eu

cartrefi eu hunain oherwydd unigolion yn yfed a chymryd cyffuriau o amgylch y fflatiau ac ar y sgwâr.

Roedd enghraifft o bentref gwledig ble soniodd sawl preswlydd nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn eu pentref oherwydd preswylwyr newydd oedd yn ymddwyn yn wrth gymdeithasol ac yn bygwth ar adegau oedd wedi symud i dai rhent. Nid oedd y preswylwyr hyn yn dymuno i enw'r pentref gael ei gynnwys yn yr adroddiad rhag cael eu hadnabod. Dywedodd y pentrefwyr bod yr heddlu wedi cael eu hysbysu a'u bod wedi cynyddu eu presenoldeb yn y pentref, fodd bynnag roedd y cynnydd yn eu presenoldeb wedi gwneud y preswylwyr yn fwy nerfus.

Astudiaeth Achos 23

Dyfyniad gan fam ifanc sy'n bwy ar stad Glanrafon, Llanrwst:

“Na, nid yn fy nghartref i. Rwy'n teimlo'n ddiogel yn Llanrwst o achos fy mod i'n gwybod ble i fynd, ond nid yn fy nghartref i o achos y bobl sy'n byw o'n cwmpas ni.”

Astudiaeth Achos 24

Dyfyniad gan fam mewn pentref gwledig yng Nghonwy. Nid oedd ganddi eisiau i'r pentref gael ei enwi.

“... yn fwy nag mewn tref neu bentref mwy, ond o ran pobl yn symud i mewn bu mwy o ddwyn a mwy o ymddygiad annymunol ac efallai mwy o gymeriadau annymunol, rwy'n pryderu mwy ynghylch y plant yn dod i gysylltiad â nhw. Felly dydw i ddim yn gadael iddynt grwydro ... ond os ydych chi'n gweld car yr heddlu mae'n gwneud i chi feddwl beth sy'n digwydd.”

Astudiaeth Achos 25

Dyfyniad gan rywun ifanc o Gerrigydrudion:

“Na, dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw fath o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn gwirionedd. Ychydig o blant, ond dim mawr, dim byd i gymharu â beth mae rhai pobl mewn trefi mawr yn gorfod ei ddiodef.”

Er i bentrefi eraill ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel, teimlai llawer yr hoffent weld cynnydd ym mhresenoldeb yr heddlu yn eu pentref, i helpu i atal trosedd a'r gyrru sy'n digwydd trwy bentrefi. Dywedwyd mewn trafodaeth grŵp bod trigolion gwledig yn talu'r un trethi tuag at yr heddlu ond nad oeddent yn eu gweld yn y pentrefi.

Fe wnaeth trafodaeth grŵp yn Llanrwst ddarganfod bod oedolion yn canmol yr heddlu oedd yn gweithio yn y dref. Teimlai rhai o'r bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy yn Llanrwst bod yr heddlu oedd yn gweithio yn y dref yn barnu pobl ifanc.

Siopa

Y prif bryderon a godwyd:

- Cost siopa yn Llanrwst: Roedd pryderon ynghylch cost bwyd yn Llanrwst. Dangosodd trafodaeth unigol a grŵp y byddai'r dref yn elwa o gael mwy o archfarchnadoedd fforddiadwy. Roedd y Ffermwyr Ifanc o'r farn pe bai archfarchnad arall yn agor yn y dref, y dylent werthu cynnyrch lleol.
- Siopa am ddillad yn Llanrwst: Mynegwyd pryder sawl tro nad oedd siopau dillad yn y dref. Rhaid i bobl wledig deithio i'r arfordir neu siopa am ddillad ar lein.
- Fe wnaeth ymgynghoriad Golygfa Gwydyr ddarganfod bod preswylwyr Llanrwst yn teimlo nad oedd y sector cyhoeddus y marchnata'n ddigonol er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr â Llanrwst.
- Siopau pentref: Gwelwyd y siop bentref gan lawer fel rhan hanfodol o fywyd pentref. Dywedodd y pentrefi hynny oedd wedi colli eu siop ei bod yn golled fawr o ran hwylustod a'r agwedd gymdeithasol.

Astudiaeth Achos 26

Dyfyniad gan fam o Lanrwst nad yw'n gyrru:

"Yn y co-op ond os nad yw fy merch yn gweithio bydd yn mynd â fi i'r arfordir gan ei bod yn llawer rhatach yno. Euthum i nôl ychydig bethau heddiw ac fe wariais dros £25 ac mae popeth mor ddrud os oes gennych eisiau rhywbeth. Er enghraifft, papur tŷ bach, ac yn Home Bargains rydych yn gallu cael llawer mwy am eich pres. Mae o'n ddrud iawn yma, yn ddrytach nag unlle arall."

Astudiaeth Achos 27

Dyfyniad gan breswlydd o bentref gwledig sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus neu ffrindiau:

"...y siop - a gaeodd a phobl yn gorfod dibynnu ar ffrindiau. Da chi'n styc os oes ganddynt ddiwrnod prysur. Mae'n 3 milltir i'r siop agosaf. Rhaid i rywun ddod â phapur Ann. Does ganoch chi ddim eisiau traferthu pobl. Mae pobl yn brysur ac mae ganddynt eu pethau eu hunain i'w gwneud."

Astudiaeth Achos 28

Dyfyniad gan rywun hŷn o Eglwysbach. Fe wnaeth cau'r siop wneud iddynt sylweddoli ei bod yn amser iddynt werthu eu tŷ a symud i dref arfordirol i fod yn nes at siopau a gwasanaethau.

"Rydym yn byw ychydig y tu allan i'r pentref, o fewn terfynau'r pentref ond tua hanner milltir o ganol y pentref. Roedd siop a Swyddfa Bost yn arfer bodoli. Byddwn yn arfer mynd efo'r bws gyda fy mhas bws ond yn anffodus fe gaeodd y siop a'r Swyddfa Bost a oedd yn drist iawn. Felly fe ddechreuodd fy ngwraig a minnau feddwl, "Beth wnawn ni?" Mae'n gaeth iawn pan fo gennych boen cronig. Roeddem yn meddwl y byddai'n rhaid i ni newid.... Roedd yr amgylchedd yn gyfyng felly fe wnaethom y

penderfyniad ddau fis yn ôl i symud i fflat ... a chael amgylchedd yn Llandrillo yn Rhos ble bydd gennyf fwy o ryddid a phethau ar gael felly dyna'r amser penderfynu mewn gwirionedd.... Y peth pwysicaf oedd colli'r siop, collais y cyfle i gymdeithasu ac roedd pobl y byddwn yn eu gweld bron bob dydd ac roeddem yn byw ar gofio'r hanner sgwrs a gawsom. Rydym wedi sylwi nad ydym yn gweld ein gilydd cymaint nawr felly mae hynny'n codi nifer o ffactorau"

Twristiaeth

Roedd preswylwyr Llanrwst yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i'r ardal, fodd bynnag roedd rhai yn teimlo bod twristiaid yn cael eu rhoi o flaen preswylwyr lleol.

Astudiaeth Achos 29

Dyfyniad gan breswlydd o Lanrwst:

"Rwyf wedi byw mewn llawer o leoedd sy'n dibynnu'n drwm ar dwristiaeth ac mae'n debyg iawn i aeaf: anghofio pawb sy'n byw yno ac yn yr haf, rhoi sioe i dwristiaid. Rydych yn gorffen gyda phobl leol yn casáu twristiaid yn lle cofleidio twristiaeth fel diwydiant da a chyfleoedd am waith. Teimlo wedi eich anwybyddu gan gynllunio, gan wasanaethau fel bysiau, oriau agor rhai pethau, rydych yn teimlo eich bod yn byw er mwyn bodoli i dwristiaid ac ymwelwyr ac nid er mwyn eich lle eich hun. Felly, eu hintegreiddio'n well rwy'n meddwl. Ie, mwy o flodau a'r math yna o beth, ei gadw'n lân... mwy o obaith i bobl wneud pethau. Llai o feirniadaeth, fel 'dylech fod yn gwneud y peth yma, dylech fod yn gwneud y peth arall', mwy o 'rydym yn gwneud y prosiect hwn, dewch i ymuno â ni'. Gwn eu bod yn gwneud Llanrwst yn ei Flodau, rwy'n meddwl ei fod yn beth braf, cael pawb i gymryd rhan."

Gwirfoddoli

Tra bo cymdeithasau ac unigolion yn sôn am ymdeilad cymdeithasol cryf yn eu hardal ac yn canmol y grwpiau sy'n eu pentrefi, mynegwyd pryder mai'r un rhai sy'n gwneud y trefniadau. Pryderwyd nad yw'r genhedlaeth nesaf o wirfoddolwyr yn barod i roi eu hamser i wirfoddoli a sicrhau bod grwpiau'n gallu parhau. Siaradodd pobl ifanc oedd yn gwirfoddoli yn eu pentrefi yn gadarnhaol iawn am eu profiadau, sut maent wedi dysgu a datblygu sgiliau a chynyddu mewn hyder oherwydd gwirfoddoli.

Astudiaeth Achos 30

Dyfyniad gan rywun ifanc sy'n gwirfoddoli gyda'r Ffermwyr Ifanc:

"Ers gadael y brifysgol rwyf wedi sylweddoli ei bod yn bwysig i bobl ddod yn ôl a chymryd cyfrifoldebau o fewn sefydliadau er mwyn iddynt barhau. Dangos ei bwysigrwydd hefyd... Nid ydych yn sylweddoli'r profiad rydych

yn ei ennill hyd y bo'ch yn gwneud cais am swydd, gallwch ddefnyddio'r profiadau hyn. Nid ydych yn sylweddoli hyn hyd y byddwch yn bell i ffwrdd."

Astudiaeth Achos 31

Dyfyniad gan rywun hŷn o Fetws yn Rhos:

"Mae nifer o bobl wedi symud yma ac yn teithio i weithio. Wn i ddim pwy sy'n byw yn rhai o'r tai, sy'n drist. A does ganom ni mo'r holl bobl oedd yn arfer gwneud yr holl drefnu, y dyddiau hwyl a beth bynnag, rŵan maen nhw wedi mynd yn hŷn, yn eu 60ai a 70au. Dydy'r rhai ifanc ddim am drafferthu i drefnu dim byd. Maent yn disgwyl i bawb arall i barhau i drefnu. Dyna'r farn gyffredinol am bwyllgorau.... ond ceisiwch gael rhywun ac 'O na, maen nhw'n rhy brysur'. Dydyn nhw ddim prysurach nag oeddem ni, na, amharod iawn i gymryd swydd mewn unrhyw sefydliad. Mor trist."

Astudiaeth Achos 32

Dyfyniad gan breswlydd o Gonwy Wledig sydd gyda phroblemau iechyd meddwl:

"... 'Dwi newydd gychwyn helpu gyda Rainbows. Roedd honno'n her fawr i mi o achos doeddwn i ddim wedi gwneud peth fel yna o'r blaen.... Rwy'n ei fwynhau. Doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn yn ei fwynhau gyda'r holl blant yn sgrechian.... Mae'n wirioneddol dda. Dwi erioed wedi gwneud peth fel hyn o'r blaen."

Casgliad

Dangosodd yr ymchwil bod cymdogaethau cryf yng Nghonwy wledig. Roedd llawer o'r unigolion a gyfwelwyd yn hapus yn byw yn eu cymdogaeth, ac yn mwynhau'r ymdeimlad cryf o gymdeithas a ffordd wledig o fyw. Dywedodd llawer eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth ac na fyddent yn hoffi byw yn unlle arall. Mae pentrefi gwledig yn fywiog yn gymdeithasol i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan ynddynt.

Roedd ardaloedd gwledig yn poeni am ddyfodol eu pentrefi; roeddent yn awyddus i weld y genhedlaeth nesaf o wirfoddolwyr yn cymryd mwy o gyfrifoldeb. Roedd ardaloedd gwledig yn poeni bod pobl ifanc yn gadael oherwydd diffyg cyfleoedd gwaith, tai fforddiadwy a chyfleoedd cymdeithasol. Roedd ganddynt eisiau cadw'r lefel bresennol o wasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn gymdogaethau cryf a chynaliadwy.

Nid oes gan lawer o bobl yng Nghonwy wledig y rhyngrwyd. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys methu fforddio band llydan, band llydan gwael neu ddim o gwbl neu ddim signal ffôn symudol, rhai yn disgrifio'u hunain yn anllythrennog gyda chyfrifiaduron, neu ddim eisiau dysgu neu ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Mae cludiant cyhoeddus yn wasanaeth hanfodol i rai preswylwyr yng Nghonwy wledig. Fe wnaeth yr ymchwil ganfod nad oes gan rai o ddefnyddwyr y gwasanaeth deulu neu ffrindiau i ofyn iddynt, neu nad oeddent yn hoffi eu poeni. Roedd gan ardaloedd eisiau gweld bysiau mwy aml, amserlen y gwasanaeth bws yn cael ei gadw'n gyfredol a bod y bysiau ar amser.

Roedd y rhai oedd yn defnyddio'r Ganolfan Waith eisiau gweld canolfan yng Nghonwy wledig, a gwelliant yn agwedd staff tuag atynt. Roedd gan ardaloedd gwledig eisiau gweld tai fforddiadwy er mwyn helpu pobl ifanc aros yn y wlad, ond sicrhau nad yw'n peryglu'r 'teimlad o bentref'. Dywedodd llawer o breswylwyr gwledig nad oeddent yn sicr ble i gael cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth a'u bod yn edrych yn y wasg leol a phapurau bro am wybodaeth am ddigwyddiadau lleol. Fe wnaeth yr ymchwil ddarganfod bod preswylwyr yng Nghonwy wledig sy'n teimlo nad oes neb yn gwrando arnynt oherwydd nad ydynt yn cael adborth o ymgynghoriadau.

Mae'r ystyriaethau a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn anelu at drin rhai o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, er mwyn eu galluogi i aros yn gymdogaethau cryf a gwydn.

Y Ffordd Ymlaen

Mae Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'i bartneriaid i asesu angen pobl Conwy.

Bydd yr ymchwil yn ffurfio rhan hanfodol o'r asesiadau hyn ac yn cyfarwyddo rhaglenni cynlluniau a rhaglenni lleol eraill fel Rhaglenni Trechu Tlodi a Chynlluniau Lle Conwy.

Bydd Bwrdd Creu Cymunedau Cryf a Threchu Tlodi Conwy'n goruchwyllo'r cynllun gweithredu a fydd yn cael ei ysgrifennu ar ôl adolygiad o ganfyddiadau'r ymchwil hwn.

Dylai'r themâu a nodwyd yn yr adroddiad hwn lunio sylfaen cynllun gweithredu, a dylid ystyried y canlynol pan fo'n cael ei ddatblygu.

Cyffredinol

- Dylid rhannu adborth a chanlyniadau'r ymchwil gyda phob ardal berthnasol trwy amrywiol gyhoeddiadau fel Cylchlythyr Conwy a phapurau bro. Ble'n bosibl, dylid rhoi adborth uniongyrchol i unigolion a grwpiau a gymerodd ran.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) a'i bartneriaid i ddefnyddio'r ymarfer da a ganfuwyd mewn cymdogaethau gwledig i rymuso cymdogaethau yng Nghonwy er mwyn datblygu gwytnwch.
- Dylai CBSC a'i bartneriaid gydlynu dulliau o gefnogi a chynnal gwasanaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi a'u cynnig eisoes mewn ardaloedd gwledig.
- CBSC a'i bartneriaid i gydlynu dulliau o gefnogi a chynnal siopau lleol.
- CBSC i lobio Llywodraeth Cymru i ystyried y fformiwla ariannu presennol a'r gwerthusiad i gymryd i ystyriaeth o werth y gwasanaethau i ardaloedd gwledig pan fo dyrannu arian a anelwyd at drin tlodi yn cael ei gyfrifo.
- Swyddog ymchwil a datblygiad Partneriaeth Pobl Conwy i ail ymweld â chanlyniadau'r ymchwil mewn blwyddyn i ganfod beth yw effaith y gweithredu a gytunwyd ar ardaloedd gwledig.
- CBSC a'i bartneriaid i ddefnyddio'r ymchwil fel canllaw i gefnogi'r unigolion hynny a'u teuluoedd nad ydynt yn cael gwasanaethau'n bresennol, ond a all fod yn byw mewn neu ar ffin byw mewn tlodi.

Adeiladau Cymunedol

- CBSC a'i bartneriaid i gefnogi cynghorau cymuned wrth gynnal adeiladau cymunedol er mwyn annog trigolion i barhau eu defnyddio.
- CBSC a'i bartneriaid i barhau i hyrwyddo a chefnogi prosiectau a gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

Canolfan Gwaith / Clybiau Gwaith

- CBSC a'i bartneriaid, yr Adran dros Waith a Phensiynau (AdWP) i fod â chanolfan/adnodd Canolfan Waith yng Nghonwy wledig (Llanrwst).

- CBSC i gyflwyno'r pryderon a godwyd yn ystod yr ymchwil i AdWP ynghylch preswylwyr yn cael trafferthion gyda chysondeb a chael cefnogaeth gan Wasanaethau Canolfan Gwaith.
- CBSC a'i bartneriaid i ddarparu cefnogaeth i Glybiau Gwaith sy'n bodoli trwy hyrwyddo gwasanaethau yng Nghonwy wledig.
- CBSC a'i bartneriaid i annog AdWP i ddarparu cofrestru Credyd Cynhwysol trwy'r post ac ar lein.

Addysg

- CBSC a'i bartneriaid i adolygu cost cludiant cyhoeddus i oedolion o ardaloedd gwledig i gael addysg bellach.
- CBSC a'i bartneriaid i gynyddu'r cyfleoedd i gynnig cyrsiau trwy Skype neu dulliau tebyg.

Teuluoedd

- CBSC a'i bartneriaid i barhau i gefnogi a hyrwyddo gwasanaethau cefnogi teuluoedd yng Nghonwy.
- CBSC a'i bartneriaid i ymchwilio'r posibilrwydd o ddarparu darpariaeth ymestynnol mewn mwy o bentrefi yng Nghonwy.

Tai

- CBSC i gefnogi cyflwyno tai fforddiadwy ym mhentrefi Conwy er mwyn galluogi pobl ifanc barhau i fyw yn eu pentref pe baent yn dewis gwneud hynny.

Rhyngrwyd / T.G. / Ffôn Symudol

- CBSC a'i bartneriaid i annog cwmnïau ffôn symudol i wella signal mewn ardaloedd gwledig.
- CBSC a'i bartneriaid i ddarparu a threfnu gwersi rhyngrwyd am ddim, fforddiadwy a hygyrch ym mhentrefi Conwy ble mae eu hangen.
- CBSC a'i bartneriaid i ddarparu cyfrifiaduron/gliniaduron i'w defnyddio mewn adeiladau cymunedol ble'n bosibl. Gallai hwn fod yn gynllun ailgylchu, i ail wneud ac ail ddefnyddio cyfrifiaduron.
- CBSC a'i bartneriaid i ystyried gosod Wi-Fi mewn adeiladau cymunedol sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd.

Ymddeol

- GCC 3 Partneriaeth Pobl Conwy i lunio llyfryn gwybodaeth ar ymddeol i ddarparu gwybodaeth ymarferol i rai sy'n byw neu'n bwriadu ymddeol yn y sir.

Cyngor a gwybodaeth

- CBSC a'i bartneriaid i wneud defnydd o bapurau bro, Daily Post, Bwletin Conwy a hysbysfyrddau i ddweud am ddigwyddiadau, hyrwyddo gwasanaethau a darparu adborth o ymgynghoriadau.
- Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth mewn ardaloedd gwledig yn hyrwyddo gwasanaethau CBSC a'i bartneriaid.

Cludiant Cyhoeddus/Cymunedol

- CBSC a'i bartneriaid i barhau i gefnogi peilot cludiant lleol mewn ardaloedd gwledig.
- CBSC a'i bartneriaid i sicrhau bod amserlenni bysiau'n gyfredol ymhob arhosfa bws yng Nghonwy wledig ac ar y rhyngrwyd.

- CBSC a'i bartneriaid i annog gwasanaethau bws i fod ar amser mewn ardaloedd gwledig.
- CBSC i sicrhau bod amseroedd bws yn ymarferol ac yn addas i anghenion pobl (e.e. digon o amser i siopa).

Gwirfoddoli

- CBSC, CGGC a'i bartneriaid i gynnal digwyddiadau gwirfoddoli mewn pentrefi, yn canolbwyntio'n arbennig ar y genhedlaeth nesaf o wirfoddolwyr.

Rhyng genhedlaeth / ynysrwydd cymdeithasol

- CBSC a'i bartneriaid i gynnig digwyddiadau integreiddio mewn ardaloedd gwledig.



Diogelwch

- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth diogelwch mewn ardaloedd gwledig i helpu i leihau'r tebygolrwydd o ddioddef trosedd.

Atodiad 1 – Taflen wybodaeth

CYMRYD RHAN MEWN CYFWELIAD • TAKING PART IN AN INTERVIEW

TAFLEN WYBODAETH • INFORMATION SHEET

<p>Helo</p> <p>Fy enw yw Cara Lynam. Rwy'n gweithio i Bartneriaeth Pobl Conwy (sy'n rhan o'r Cyngor). Fy ngwaith yw gwneud ymchwil penodol i Gyngor Conwy. Rwy'n gofyn i chi gymryd rhan mewn cyfweiliad fel y gallwn gael eich barn (ymgyngoriad). Cyn i chi benderfynu a oes gennych eisiau cymryd rhan neu beidio, mae gen i eisiau dweud wrthy ch pam ein bod yn ymgynghori, a beth allwch ei ddisgwyl os ydych yn cymryd rhan. Meddyliwch am yr wybodaeth hon yn ofalus a siarad â phobl eraill am y peth, os dymunwch. Mae croeso i chi ddod i gysylltiad a gofyn cwestiynau i mi. Cymerwch gymaint o amser ag y dymunwch. Mae'r ymchwil yn cael ei wneud i helpu i ni ganfod beth mae byw yng Nghonwy wledig yn debyg iddo, a chanfod a oes rhywbeth y gallwn ei wneud yn well.</p>  <p>Beth yw pwrpas yr ymgynghoriad? Ein nod yw canfod am eich profiad chi o fyw yng Nghonwy wledig. Mae gennym eisiau gwybod er mwyn ein helpu i wneud penderfyniad ar ba wasanaethau sydd eu hangen mewn ardaloedd gwledig.</p> <p>Sut fydd hyn yn gweithio? Hoffem eich cyfarfod a gofyn i chi rannu eich profiadau gyda ni. Byddwn yn gofyn rhai cwestiynau i chi i helpu gyda hyn. Gallwch</p> <ul style="list-style-type: none"> - ddewis lle yr hoffech ein cyfarfod (gartref, neu yn rhywle arall) - ofyn i rywun arall eistedd gyda chi, fel gweithiwr, aelod o'r teulu neu ffrind - ddewis gofyn i ni ddod i'ch cyfarfod ymlaen llaw i ddod i adnabod ein gilydd a siarad am y broses <p>Er mwyn ein helpu i wrando arnoch yn effeithiol a chofnodi'r hyn rydych yn ei ddweud wrthym yn gywir, hoffem ddefnyddio dictaffon, a theipio'r hyn</p>	<p>Hello</p> <p>My name is Cara Lynam. I work for Conwy People's Partnership (which is part of the Council). My job is to complete set pieces of research for Conwy Council. I am asking you to take part in an interview so that we can gain your views (consultation). Before you decide if you want to take part or not, I want to tell you why we're consulting, and what you can expect if you take part. Please think about this information carefully and talk about it with other people if you wish. You're welcome to get in touch and ask me any questions. Please take as much time as you like to decide. This research is being done to help us find out what it's like living in rural Conwy, and to find out if there is anything we can do better.</p>  <p>What is the purpose of the consultation? Our aim is to find out about your experiences of living in rural Conwy. We want to know about this in order to help us make decisions on what services are needed in rural communities.</p> <p>How will it work? We would like to meet with you, and ask you to share your experiences with us. We will ask you some questions to help with this. You can</p> <ul style="list-style-type: none"> - choose where you would want to meet us (at home, or somewhere else) - request that someone else sits in with you, like a worker, a member of the family or a friend - choose to ask us to come and meet you beforehand to get to know each other a little and talk through the process <p>In order to help us listen to you effectively and record what you're telling us properly, we would like</p>
---	---

a ddywedwyd yn ddiweddarach. Gallwch ddewis gofyn i ni beidio defnyddio dictaffon, a byddwn yn gofyn i rywun arall ddod i gymryd nodiadau.

Sut fyddwn ni'n diogelu eich preifatrwydd a beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth?

Os ydych yn penderfynu rhoi caniatâd i ni ddefnyddio eich cyfweiliad, bydd yn cael ei ddefnyddio gyda chyfweiliadau eraill. Bydd yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno ar ffurf adroddiad fydd yn cael ei ddefnyddio gan y "Bwrdd Creu Cymunedau Cryf a Threchgu Tlodi" i helpu i benderfynu sut y gellir gwella gwasanaethau i pobl sy'n byw yng Nghonwy Wledig. Bydd pob data yn cael ei ddefnyddio yn unol â thelerau'r Ddeddf Diogelu Data (DPA 1998).

Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Eich dewis chi yw cymryd rhan neu beidio. Os ydych yn penderfynu cymryd rhan, byddwch yn cael y daflen wybodaeth hon i'w chadw. Gofynnir i chi lofnodi 'ffurflen ganiatâd' hefyd. Os ydych yn penderfynu cymryd rhan, mae croeso i chi newid eich meddwl ar unrhyw adeg a does dim rhaid i chi roi rheswm. Ni fydd eich penderfyniad i gymryd rhan neu beidio yn cael unrhyw effaith ar y gwasanaethau rydych yn eu cael.

Bydd hyd y cyfweiliad yn amrywio, yn dibynnu ar faint sydd gennych chi i'w ddweud, ond mae'r rhan fwyaf o gyfweiliadau yn parhau tua awr. Os yw'n well gennych chi, gallaf eich cyfweld ar ddau wahanol achlysur, a gallwch chi stopio'r cyfweiliad ar unrhyw adeg.

Cysylltwch i gael rhagor o wybodaeth
Rwy'n gobeithio fod y daflen hon wedi rhoi'r
wybodaeth angenrheidiol i chi benderfynu a ydych
am gymryd rhan neu beidio.
Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ffoniwch
Cara Lynam ar 01492 575145.

to use a Dictaphone, and type up what has been said. You can choose to ask us not to use a Dictaphone, and we will ask someone else to come and take notes instead.

How will we protect your privacy and what will happen with the information?

If you decide to allow your interview to be used, it would be used along with interviews from other people. The information will be pulled together in a report, which will be used by the "Building Resilient Communities and Tackling Poverty Board" to help decide how to improve services for people living in rural Conwy. All data use is strictly within the terms of the Data Protection Act (DPA 1998).

Do I have to take part?

It is entirely up to you to decide whether or not you want to take part. If you decide to take part, you will be given this information sheet to keep. You will also be asked to sign a 'consent form'. If you decide to take part, you are still free to stop at any time without giving a reason. Deciding whether or not to take part will not affect the services that you receive.

The time it takes for an interview varies, depending on how much you have to say, but most interviews last about an hour. If you would prefer, I can interview you on two different occasions and you can stop the interview at any time.

Contact for further information

I hope that this information sheet has told you what you need to know before deciding whether or not to take part.

If you have any questions at all please telephone
Cara Lynam on 01492 575145.

Atodiad 2 Trywyddau cyfweiliad i ymchwiliwr

- Cyflwyniad ac esbonio fy ngwaith, am beth mae'r cyfweiliad, i ble fydd yr wybodaeth yn mynd etc. a chyfrinachedd.
- Edrych a oes gennym ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi.
- Amddiffyn plant neu POVA.
- Gwybodaeth am drefn y cyfweiliad, gallwch stopio'r cyfweiliad unrhyw bryd trwy roi arwydd neu ofyn i stopio.
- Gallwch stopio'r cyfwelydd yn llwyr unrhyw bryd os nad ydych yn hapus.
- Efallai y byddaf yn gwneud ychydig nodiadau i fy atgoffa o rywbeth efallai y bydd gen i eisiau dod yn ôl ato.
- Os oes rhywbeth rydych yn ei ddweud wrthyf y gallaf roi cyngor amdano, fe wnaaf hynny ar ôl i'r cyfweiliad ddod i ben ac mae'r tâp wedi'i droi i ffwrdd.
- A ydych yn hapus eich bod wedi deall pob dim rwyf wedi'i esbonio? A oes gennych unrhyw gwestiynau yr hoffech ei ofyn i mi?

Cwestiynau cyfweiliad rhannol strwythuredig –

Ceisiwch ddefnyddio'r canlynol i'w cael i ehangu ar eu hatebion:

“Dywedwch wrthyf am...” “Allwch chi esbonio beth ydych yn ei olygu wrth...”

1. Allwch chi ddweud wrthyf ychydig amdanoch eich hun, er enghraifft eich cefndir a ble wnaethoch dyfu i fyny.
2. Allwch chi ddweud wrthyf am y lle rydych yn byw?
3. Ers pryd rydych wedi byw yno
4. Ble rydych yn ei ystyried yw eich cymdogaeth?
5. Beth rydych yn ei feddwl am y gymdogaeth rydych yn byw ynddi?
6. A oes unrhyw beth nad ydych yn ei hoffi am y lle rydych yn byw ynddo?
7. A ydych yn teimlo'n ddiogel yn eich cartref? (ymhelaethwch pe bai angen)
8. Sut ydych yn mynd i, i ble rydych yn mynd, a faint fydd yn ei gymryd i gyrraedd eich meddyg, archfarchnad, swyddfa bost, banc etc.
9. Pam yr ardaloedd hyn?
10. A ydych chi neu eich teulu wedi gorfod dibynnu erioed ar y teulu, ffrindiau neu gymdogion?
11. A fydddech chi neu aelodau eich teulu yn gofyn am help gan y cyngor, sefydliad arall neu iechyd pe bai arnoch ei angen?
12. Sut ydych yn darganfod beth sy'n digwydd yn eich cymdogaeth a pha wasanaethau sydd ar gael i chi?
13. A yw'r rhyngwyd gennych gartref? (Gofyn i beth mae'r gwasanaeth yn debyg iddo os nad ydynt yn sôn amdano)

14. A ydych yn defnyddio ffôn symudol? Pa mor dda yw ansawdd signal ffôn symudol yn eich ardal?
15. Pa adeiladau cyhoeddus rydych yn eu defnyddio e.e. neuadd y pentref, eglwys, capel, adeilad chwaraeon?
16. I beth rydych yn eu defnyddio?
17. A oes unrhyw wasanaethau eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnig yn eich pentref/yn lleol? Pam?
18. Sut mae'r gwasanaethau yn eich cylch wedi newid yn ystod y pum mlynedd diwethaf?
19. Sut mae'r newidiadau hyn wedi effeithio arnoch chi neu eraill yn eich cartref? (ac aelodau eraill o'r teulu)
20. Pe baech yn gallu gwneud unrhyw beth i wella eich cymdogaeth, beth fydddech yn ei wneud?
21. Allwch chi ddisgrifio sut y tybiwch y dylai eich cymdogaeth fod mewn deng mlynedd?
22. Beth fyddai eich neges pe baech yn gallu anfon un neges at Gyngor Conwy am fywyd yn eich cymdogaeth?

Cyfeiriadau

Joseph Rowntree Foundation 'A *minimum income standard for rural households*', Noel Smith, Abigail Davis a Donald Hirsch, 2010

Joseph Rowntree Foundation Papur Rhaglen, '*Anti-poverty strategies for the UK - Defining Poverty*', Chris Goulden a Conor D'Arcy, Medi 2014.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 – crynodeb gweithredol

Rural Wales in the Twenty First Century, Milbourne, 2011

Golygfa Gwydyr, Ymgynghoriad Cymunedol Cam 1, Hydref 2015

Heddlu Gogledd Cymru, Trosedd a Gofnodwyd yng Nghonwy Wledig, Chwefror 2016.